**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales

7 Ebrill 2022

Annwyl Llyr

Diolch am fy ngwahodd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am y gwaith hanfodol sy'n mynd rhagddo i leihau allyriadau carbon o gartrefi Cymru.

**Cefndir a Chyd-destun**

Mae'r gwaith o ddatgarboneiddio'r 1.4 miliwn o gartrefi yng Nghymru yn gymhleth ac yn heriol, ond mae hefyd yn hanfodol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau o ran newid hinsawdd. Mae'r gwaith hwn yn fwy heriol byth oherwydd yr ymdeimlad o 'Zeitenwende', sef tro ar fyd, sy'n effeithio ar bob un ohonom. Mae dwy flynedd o'r pandemig wedi newid yn sylfaenol y ffordd y mae llawer o bobl yn byw ac yn gweithio, ac yn meddwl am eu cartrefi. Gyda'r adfer economaidd a welwyd ar ôl y pandemig, mae chwyddiant wrthi'n codi eto, gan ddileu nifer o'r gwelliannau a wnaed dros y degawd diwethaf o ran lleihau tlodi tanwydd. Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi cael effaith sydyn a phellgyrhaeddol ar farchnadoedd ynni a chartrefi ledled y byd.

Ar yr un pryd, mae newidiadau ym maes datgarboneiddio yn cyflymu o hyd, gydag ymdrechion bellach yn canolbwyntio ar garbon oes gyfan (sef y carbon a gynhyrchir wrth adeiladu ac adnewyddu cartref) yn lle ar leihau carbon gweithredol (sef y carbon a gynhyrchir wrth redeg cartref) yn unig.

Felly, er i adroddiad *'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell'* fynegi rhai uchelgeisiau clir ac annog dilyn trywydd lefel uchel pan gafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019, mae llawer wedi newid ers iddo gael ei lunio, ac roedd yn rhaid i'n rhaglen waith fod yn hyblyg yn wyneb y newidiadau hynny. Mae'r diweddariad hwn yn dangos y cynnydd a wnaed o ran cyflawni argymhellion yr adroddiad, yn ystyried y sefyllfa a nodwyd yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn rhoi cipolwg ar weithgareddau eraill a arweinir gan Lywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio tai yng Nghymru yng nghyd-destun byd dynamig a phrysur sy'n newid o hyd.

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn cefnogi cam cyntaf yr ymchwiliad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain ar oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu pob un o'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru yn ei adroddiad *Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell.***

Cyhoeddwyd yr adroddiad annibynnol 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru' ym mis Gorffennaf 2019. Derbyniodd Gweinidogion Cymru 7 ymrwymiad strategol mewn egwyddor, sy'n cynnwys 24 o gamau weithredu. O'r 24 o gamau gweithredu, mae 9 ohonynt wedi cael eu cyflawni, mae 12 ohonynt yn mynd rhagddynt, ac nid oes camau wedi cael eu cymryd eto yn achos 3 ohonynt, er bod gwaith paratoi'r pridd wedi dechrau. Gweithgaredd tymor hir yw datgarboneiddio, ac mae rhai o'r argymhellion yn rhychwantu degawd neu fwy. Felly, mae nifer o'r argymhellion yn gwneud cynnydd, ond nid ydynt wedi dod i ben eto. Mae Atodiad A yn cynnwys manylion am y cynnydd presennol yn erbyn pob cam gweithredu.

**Penawdau**

1. Mae'r adroddiad yn argymell y dylid buddsoddi o leiaf £100m er mwyn rhoi hwb i'r gwaith o ddatgarboneiddio tai yng Nghymru. Sefydlwyd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio mewn ymateb i hyn. Mae Gweinidogion eisoes wedi ymrwymo i ddarparu cyllid gwerth £70m i landlordiaid cymdeithasol er mwyn iddynt ddysgu sut i ddatgarboneiddio cartrefi yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae £150m ychwanegol ar gael bellach i barhau â'r Rhaglen yn ystod tymor y llywodraeth hon, sy'n golygu bod cyfanswm o tua £220m wedi cael ei fuddsoddi mewn datgarboneiddio preswyl ers 2020.

2. Mae'r Rhaglen yn darparu cyllid i lenwi'r bwlch rhwng faint o arian y gall landlordiaid cymdeithasol preifat ei fforddio ei fuddsoddi er mwyn datgarboneiddio cartref, a chost wirioneddol y gwaith hwn. Nod y buddsoddiad yw ysgogi marchnadoedd yn ystod y blynyddoedd cynnar o'r symud i Carbon Sero Net, ac i uwchsgilio aseswyr a gosodwyr a gwella eu sgiliau, wrth gynyddu capasiti cadwyn gyflenwi Cymru er mwyn rhoi cyfle i fusnesau lleol gael y budd llawn o'r 'chwildro adeiladau gwyrdd'.

3. Defnyddiwyd cyllid y Rhaglen i sefydlu dwy System Prynu Ddynamig yn llwyddiannus. Sefydlwyd y fframweithiau caffael hyn – un ar gyfer sgiliau ac un ar gyfer deunyddiau carbon isel – yn fwriadol er mwyn cefnogi'r newid systemig sydd ei angen er mwyn datgarboneiddio sectorau o'r economi. Mae'r fframweithiau yn rhoi cyfle i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau yng Nghymru elwa ar arian sylweddol a fuddsoddir yn lleol gan y Rhaglen. Y nod yw creu ffyniant mewn cymunedau a sicrhau bod gwerth arian a fuddsoddir yn aros yng Nghymru.

4. Drwy gyfeirio buddsoddiadau'r Rhaglen drwy landlordiaid cymdeithasol, gellir cefnogi dull 'profi a dysgu' o ran sut i ddatgarboneiddio cartrefi. Yn ogystal â gwerthuso'r agweddau technegol o'r gwaith a'r rheini sy'n ymwneud â deiliadaethau, caiff costau gwirioneddol eu monitro a'u defnyddio yn y tybiaethau ar gyfer modelau cyllido datgarboneiddio preswyl yn y dyfodol. Drwy weithredu yn y ffordd hon, bydd modd

dechrau'r gwaith o ddatgarboneiddio cartrefi mewn deiliadaethau eraill erbyn 2023.

5. Mae ymdrechion datgarboneiddio'n dechrau yn y sector tai cymdeithasol, cyn symud i ddeiliadaethau eraill, am mai dyma'r sector lle mae modd i Weinidogion Cymru weithredu'n fwyaf effeithiol. Felly mae llai o gynnydd wedi bod ar yr argymhellion hynny yn yr adroddiad sy'n ymwneud â'r sector rhentu preifat a pherchen-feddianwyr o ganlyniad i'r flaenoriaeth strategol hon.

6. Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn adlewyrchu ymrwymiad strategol i ddatgarboneiddio mewn modd sy'n fuddiol i bobl ac i'r blaned. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ystyried pob cartref i bennu'r gwaith sydd ei angen er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cyrraedd Carbon Sero Net Llywodraeth Cymru. Y cam nesaf wedyn yw cytuno ag amserlen o waith ar gyfer yr eiddo, sy'n nodi pryd y caiff y gwaith ei wneud. Bydd y dull fesul cartref hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gasglu data am statws a chyflwr y stoc dai cymdeithasol i lywio penderfyniadau'r dyfodol, a mesur cynnydd tuag at dargedau datgarboneiddio tai.

7. Cyhoeddwyd Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021, Mannau a Chartrefi Prydferth (WDQR2021) ar 1 Hydref 2021. Mae'r safon yn pennu ansawdd unrhyw gartrefi fforddiadwy a adeiladir o'r newydd yng Nghymru a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r safon hon ar gyfer cartrefi cymdeithasol, sy'n arwain y gad yn y DU, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrraedd band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) -SAP 92 mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, ac yn gwahardd y defnydd o systemau gwresogi tai a dŵr sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Disgwylir y caiff y safon hon ei hehangu er mwyn bod yn berthnasol i gartrefi marchnad erbyn 2025. Mae hyn yn unol â'r hyn a argymhellwyd yn Adolygiad Tai Fforddiadwy 2019. Mae'r safon yn dileu'r gofyniad i ôl-osod cartrefu a adeiladwyd yn unol â safon WDQR2021 yn y dyfodol.

8. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn gosod y safon ar gyfer cartrefi cymdeithasol presennol yng Nghymru. Bydd y safon, y trefnwyd cynnal ymgynghoriad arno ym mis Mai 2022, yn darparu rhaglen ôl-osod hirdymor (10 mlynedd neu ragor) ar gyfer tai cymdeithasol. Ymhlith y cynigion sy'n debygol o gael eu gwneud mae cyrraedd EPC Band A (SAP 92) a mesurau lleihau carbon er mwyn cyflawni Carbon Sero Net yn unol ag ymrwymiadau *'Sero Net Cymru'* . Disgwylir y caiff SATC ei ehangu i gynnwys deiliadaethau eraill dros amser.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o gymunedau, rhwydweithiau a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi. Roedd angen gwneud cryn dipyn o waith cyd-greu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn cwblhau safonau newydd SATC a WDQR2021. Er enghraifft, mae grŵp gorchwyl a gorffen SATC yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai Pawb (sef sefydliad trydydd sector sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb), TPAS Cymru (sef y corff cynrychiadol ar gyfer tenantiaid) a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymhlith eraill.

10. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi buddsoddi £990,000 dros dair blynedd i gyllido Hwb Carbon Sero Net i ddarparu cymorth i landlordiaid cymdeithasol sy'n gofyn am gyngor ac arweiniad ar ffyrdd o ddatgarboneiddio eu stoc dai. Bydd modd cael hyd i'r ymchwil a'r syniadau diweddaraf, gwybodaeth am ddewisiadau o ran deunyddiau a chymorth ar gyfer caffael hefyd. Bydd yr Hwb yn dechrau gweithredu yn ystod 2022/23 ar sail 'er budd' i landlordiaid cymdeithasol, cyn caei ei ehangu'n gyflym i gefnogi landlordiaid preifat a pherchenogion tai sy'n awyddus i leihau ôl troed carbon eu cartref.

**Rhannwch â'r Pwyllgor Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod**

11. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb ffurfiol i adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod. Roedd adroddiad y Comisiynydd yn canolbwyntio ar amcangyfrif cyfanswm y cyllid sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru, yn ogystal â nodi bylchau cyllido ac awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae'r adroddiad yn ychwanegu at syniadau ar y mater cymhleth iawn hwn mewn modd defnyddiol.

12. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio gyda'r sector tai cymdeithasol ac eraill i ddatblygu safon SATC newydd ar gyfer ôl-osod cartrefi cymdeithasol. Bydd y safon newydd yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a newid hinsawdd, fel y nodwyd yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n hanfodol er mwyn datblygu model cyllido teg a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

13. Mae adroddiad ‘Addas ar gyfer y Dyfodol’ yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw cael cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer ôl-osod cartrefi i'w datgarboneiddio. Fodd bynnag, er bod gan y Llywodraeth rôl bwysig i'w chwarae o ran gosod cyfeiriad a chefnogi sefydliadau'n ariannol yn ystod y blynyddoedd cynnar o'r broses datgarboneiddio preswyl, bydd angen sicrhau bod y costau hyn yn cael eu hysgwyddo mewn partneriaeth â busnesau, sefydliadau ac unigolion. Bydd angen sicrhau bod modelau cyllido'r dyfodol yn adlewyrchu'r sefyllfa hon.

14. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwerthuso amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ariannu gwaith ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat. Mae'r rhain yn ymgorffori cyllid grant a chyllid ad-daladwy. Defnyddir gallu ariannol y defnyddwyr terfynol er mwyn helpu i'w cyfeirio at yr ateb ariannu mwyaf priodol yn y tymor canolig.

15. Ymhlith y modelau ar gyfer ariannu sy'n cael eu hystyried mae Ynni Glân a Aseswyd Fesul Eiddo, lle mae'r benthyciad yn gysylltiedig â'r eiddo yn hytrach na’r unigolyn, benthyciadau llog isel, benthyciadau rhyddhau ecwiti a morgeisi gwyrdd. Efallai y bydd angen mecanwaith grant hefyd ar gyfer aelwydydd incwm is.

16. Mae'r gwaith o ddatgarboneiddio a gwella effeithlonrwydd ynni tai o bob math o ddeiliadaeth yng Nghymru, a sut y gallwn ni gyllido'r gwaith hwn yn gymhleth iawn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried ffyrdd ymlaen. Yn benodol, rydym wedi dechrau gweithio gyda Banc Datblygu Cymru yn ddiweddar yn ystyried opsiynau cyllido ar gyfer y sector perchen-feddianwyr.

17. Mae'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio annibynnol (sy'n cael ei gadeirio gan Chris Jofeh, a luniodd adroddiad ‘Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell’) yn rhoi arweiniad arbenigol i Lywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio tai. Mae'r grŵp yn gyfrifol am ddatblygu ‘cynnig’ neu gynnyrch posibl wedi'i dargedu at berchen-feddianwyr. Bydd

yn adrodd yn ôl i swyddogion cyn hir.

18. Er i'r adroddiad awgrymu rhai blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru, nodwyd bod nifer o feysydd yn yr adroddiad yn dibynnu ar waith ehangach gyda Llywodraeth y DU. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni y trefnwyd ei gynnal yng ngwanwyn 2023. Fodd bynnag, nid pwnc datganoledig yw hwn, felly mae'n rhaid i Weinidogion weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn llywio'r ffordd o weithio a dylanwadu arno. Ni fyddai'n briodol inni achub y blaen ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn i safonau effeithlonrwydd ynni yn y Sector Rhentu Preifat. Felly rydym yn blaenoriaethu'r sector cymdeithasol, cyn troi ein hymdrechion datgarboneiddio at ddeiliadaethau eraill.

19. Mae adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi'r her gydgysylltiedig sydd ynghlwm wrth ddatgarboneiddio cartrefi wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae swyddogion yn gweithio i sicrhau cysondeb ar draws y meysydd polisi hyn. Mae creu'r Strwythur grŵp newydd gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd newydd yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y llywodraeth hon a'r penderfyniad i weithredu'n gyson yn y meysydd hynny. Caiff trefniadau newydd eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2022.

Rwy'n edrych ymlaen at rannu rhagor o fanylion â chi ar ein cynnydd wrth ddatgarboneiddio tai yng Nghymru mewn sesiynau'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Atodiad A

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Ymrwymiad Strategol**<br><br>1. **Mae'n rhaid i'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru wneud ymrwymiad strategol i ddatgarboneiddio preswyl cenedlaethol a chadw ato** | **Cam Gweithredu 1.1** – Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo'n gyhoeddus nawr i ddilyn rhaglen ddatgarboneiddio preswyl 30 mlynedd | Wedi'i gyflawni. Mae bennod Cymru Sero Net sy'n trafod datgarboneiddio preswyl yn nodi ymrwymiadau cenedlaethol hirdymor er mwyn cyflawni targedau hinsawdd 2050. |
| | **Cam Gweithredu 1.2** – Dylai pob plaid wleidyddol yn genedlaethol ac yn lleol wneud ymrwymiad clir i helpu i gyflawni'r targedau yn Argymhelliad 2. | Wedi'i gyflawni. Mae ymrwymiad '15' yn rhaglen y Cytundeb Cydweithio yn cyfeirio at ddisgwyliadau ynghylch darparu seilwaith carbon sero net, sy'n cynnwys tai. |
| | **Cam Gweithredu 1.3** – O 2025 fan bellaf, rhaid i bob cartref newydd yng Nghymru gael ei adeiladu i fod yn garbon isel, yn effeithlon o ran ynni a dŵr ac yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Rhaid gwneud gwiriadau annibynnol i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn atal yr her o ôl-osod cartrefi rhag tyfu a mynd yn ddrutach. Dylai'r holl gartrefi a gaiff eu hadeiladu gyda chyllid y sector cyhoeddus fodloni'r safonau hyn erbyn 2021 fan bellaf. | Wedi'i gyflawni. Ar 1 Hydref 2021, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (WDQR2021) sy'n cynnwys y gofynion hyn.<br><br>Mae'r safon yn cynnwys disgwyliad y dylai pob cartref sy'n cael ei adeiladu ag arian y sector cyhoeddus fodloni'r safonau hyn erbyn 2025 fan bellaf. Mae hyn yn hwyrach na'r argymhelliad a wnaed yn 2021, ond mae'n rhoi cyfle i sicrhau cysondeb â gofynion Rheoliadau Adeiladu Rhan L a gyhoeddir yn 2025, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Argymhellwyd 2025 yn Adolygiad Tai Fforddiadwy Annibynnol 2019 hefyd. |
| | **Cam Gweithredu 1.4** – Dylai Llywodraeth Cymru ar fyrder ddechrau datblygu'r argymhellion a'r camau gweithredu yn yr | Wedi'i gyflawni. Sefydlwyd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn 2020, blwyddyn yn gynnar. |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain ar oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
|---|---|---|
| | adroddiad hwn yn rhaglen weithredu uchelgeisiol sy'n barod i gael ei rhoi ar waith yn 2021. Mae'n rhaid i egwyddorion newid ymddygiad a chynllun cyfathrebu sy'n eu hadlewyrchu fod yn sail i hyn. | Ariannwyd gweithgareddau newid ymddygiad gwerth £100k fel rhan o'r Rhaglen, yn ogystal â gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu sylweddol drwy asiantaeth arbenigol ac adnoddau landlordiaid eu hunain er mwyn gweithio gyda thenantiaid. Mae enghreifftiau o gynnwys ar gael isod. |
| | | |
| <u>**Gosod Targedau Uchelgeisiol**</u><br>**2. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod targedau tai uchelgeisiol er mwyn cyflawni ei ddyhead i gael carbon sero net erbyn 2050.** | **Cam Gweithredu 2.1** – Erbyn 2050, mae'n rhaid i'r stoc dai fod wedi cael ei hôl-osod i gyrraedd sgôr y tu hwnt i SAP 90 er mwyn bod ym Mand A EPC, gan gydnabod na fydd pob cartref yn gallu cyflawni hyn. | Yn mynd rhagddo. Mae'n debygol y bydd y Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) newydd a gynigir yn ei gwneud yn ofynnol i dai cymdeithasol gyrraedd EPC Band A –SAP 92 o fewn degawd. Mae hon yn safon uchelgeisiol iawn, am mai'r sgôr effeithlonrwydd ynni presennol yn y safon yw EPC Band D –SAP65. Ni all pob cartref fodloni'r safon ar hyn o bryd, ond dros amser, gyda datgarboneiddio'r grid, gwelliannau ym maes technoleg a chostau llai ym mlynyddoedd diweddar y rhaglen, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf yn gallu bodloni'r safon.<br><br>Mae'r dysgu a'r gallu i gyflawni canlyniadau tebyg mewn deiliadaethau eraill yn fwy heriol. Llywodraeth y DU fydd yn pennu'r mesur effeithlonrwydd ynni (nid mater datganoledig yw ynni), ac ni ellir datblygu modelau cymorth ariannol ar gyfer y dyfodol cyn i hyn ddod i'r amlwg yn 2023. |
| | **Cam Gweithredu 2.2** – Lobïo llywodraeth y DU i gefnogi ac annog gwaith i ddatgarboneiddio'r gridiau cyflenwi ynni ymhellach gan na all Cymru gyflawni'r targed lleihau carbon hebddo. | Yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith o ddatgarboneiddio gridiau yng Nghymru wedi mynd rhagddo yn gyflymach nag y rhagwelwyd yn wreiddiol, sy'n golygu bod gosod EPC Band A fel safon yn heriol i gartrefi cymdeithasol, ond yn bosibl. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth y DU, a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn benodol, i sicrhau eu bod yn deall anghenion Cymru ac yn eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau am sut i ddatgarboneiddio'r gridiau. |

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
|---|---|---|
| | **Cam Gweithredu 2.3** – Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau rhaglen 10 mlynedd ar fyrder i flaenoriaethu'r gwaith o ôl-osod rhai cartrefi penodol.<br><br>(a) Dylai Llywodraeth Cymru osod Band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni yn darged ar gyfer cartrefi mewn perchnogaeth gymdeithasol a chartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd.<br><br>(b) Dylai Llywodraeth Cymru gymell pobl i fabwysiadu mesurau ôl-osod yn gynnar er mwyn cyrraedd targed Band A y Dystysgrif Perfformiad Ynni. | Wedi’i gyflawni. Mae'n debygol y bydd Safon Ansawdd Tai Cymru yn cynnig Band A EPC SAP 92 ar gyfer cartrefi cymdeithasol presennol cyn cynnal yr ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mai 2022. Bydd hyn yn rhaglen 10 mlynedd neu hirach i ddatgarboneiddio cartrefi cymdeithasol. Bydd llawer o'r aelwydydd hyn mewn tlodi tanwydd. Mae ymgynghoriad ffurfiol ar y rhaglen Cartrefi Cynnes i ddeiliadaethau eraill yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd angen addasu'r ymateb er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau byw a'r galw mwy am effeithlonrwydd ynni i leihau biliau.<br><br>Mae'r Rhaglen yn gwobrwyo pobl sy'n penderfynu'n gynnar i wneud gwaith ôl-osod er mwyn cyrraedd Band A EPC – bydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ond ar gael yn ystod tymor y llywodraeth hon, er mwyn sicrhau bod cyllid hael ar gael i landlordiaid sy'n arloesi ac yn gwneud cynnydd yn y maes hwn i ddechrau ar y broses ddatgarboneiddio. |
| | | |
| <u>**Sicrhau Ansawdd a Chyflawni ar draws Deiliadaethau**</u><br>3. **Dylai Llywodraeth Cymru roi'r system ansawdd a dulliau cyflawni cywir ar waith ar draws pob deiliadaeth er mwyn helpu i gyrraedd y targedau** | **Cam Gweithredu 3.1** – Dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r broses o greu “Cofnodlyfr Cartref” ar gyfer pob cartref, a'i hyrwyddo'n gyhoeddus, er mwyn rhoi arweiniad ar benderfyniadau a buddsoddiadau effeithlonrwydd ynni. | Wedi’i gyflawni. Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yw dull strategol Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio cartrefi. Y rhaglen hon yw'r cyfrwng ar gyfer cyflawni’r gwaith hwn, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob cartref gael Asesiad Tŷ Cyfan sy'n unol â PAS2035 – y safon ymarfer orau ar gyfer cynnal asesiadau. Mae'r asesiad yn creu cofnodlyfr yn nodi'r gwaith y mae angen ei wneud er mwyn datgarboneiddio'r cartref. Disgwylir y caiff y dull hwn ei gyflwyno ar gyfer deiliadaethau eraill. |
| | **Cam Gweithredu 3.2** – Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid a sefydliadau eraill â diddordeb i greu ac ariannu cyfundrefn sicrhau ansawdd annibynnol sy'n briodol ar gyfer cartrefi sengl ynghyd â phrosiectau aml-eiddo. | Yn mynd rhagddo. Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn y camau cynnar, ac mae'r gwaith wrthi'n cael ei werthuso a'i fonitro ar hyn o bryd – gan ganolbwyntio ar effaith y gwaith a wnaed i ddatgarboneiddio'r cartref a phrofiad bywyd y tenant. Bydd hyn yn ffurfio sail ar gyfer yr hyn sy'n gweithio. Ar ôl pennu'r arferion gorau, ystyrir rhoi trefn sicrhau ansawdd briodol ar waith, os bydd angen. |
| | | |

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
|---|---|---|
| | **Cam Gweithredu 3.3** – Sicrhau bod y gyfundrefn ansawdd newydd yn briodol ac yn hygyrch i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, yn ogystal â chwmnïau mwy o faint, a bod gan bob un fynediad at y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar raglen ôl-osod 30 mlynedd. | Yn mynd rhagddo. Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi cyllido'r ddwy System Prynu Ddynamig a sefydlwyd yn llwyddiannus. Sefydlwyd y fframweithiau caffael hyn – un ar gyfer sgiliau ac un ar gyfer deunyddiau carbon isel – yn fwriadol er mwyn cefnogi'r newid systemig sydd ei angen i ddatgarboneiddio sectorau o'r economi. Mae'r fframweithiau'n rhoi cyfle i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau yng Nghymru elwa ar yr arian sylweddol a fuddsoddir yn lleol gan y rhaglen. Y nod yw creu ffyniant mewn cymunedau a sicrhau bod gwerth yr arian a fuddsoddir yn aros yng Nghymru.<br><br>Mae swyddogion tai hefyd yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn nhîm yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL), partneriaethau sgiliau rhanbarthol ac Adeiladu Arbenigrwydd Cymru i feithrin gweithlu gwyrdd sy'n fedrus ac yn gymwys – a elwir yn 'fyddin ddatgarboneiddio'. Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo mor gyflym ag y gobeithiwyd. |
| | **Cam Gweithredu 3.4** – Annog a chefnogi busnesau yng Nghymru i gyflwyno prosiectau a fydd yn arwain at y manteision gorau i'r gymuned. | Yn mynd rhagddo. Rhaid i bob cynllun ôl-osod sy'n cael ei gyllido gan Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2 ddangos y gwerth cymdeithasol y bydd y buddsoddiad yn ei ddarparu i leoliad y gymuned. Gallai hyn gynnwys swyddi a chyfleoedd hyfforddiant, gwelliannau i fioamrywiaeth neu gynhyrchu cyfoeth drwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. |
| | **Cam Gweithredu 3.5** – Annog a chefnogi landlordiaid cymdeithasol i ehangu eu gweithgareddau uwchraddio preswyl y tu hwnt i'w portffolios eu hunain er mwyn helpu i wella cartrefi y mae'r bobl sy'n byw ynddynt a landlordiaid preifat yn berchen arnynt. | Heb ei weithredu eto. Mae datgarboneiddio preswyl yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol ar hyn o bryd, am mai dyma'r maes lle mae'r Llywodraeth yn gallu gosod cyfeiriad a dylanwadu orau. Drwy ddysgu o'r sector hwn, bydd modd ehangu'r gwaith yn gyflym i gwmpasu deiliadaethau eraill, pan fydd pobl wedi dysgu'r ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol o ddatgarboneiddio cartrefi. Nid mater datganoledig yw ynni. Pan fydd sefyllfa Llywodraeth y DU ar safonau ynni tai rhent preifat yn gliriach, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried rhoi'r cam gweithredu hwn ar waith. |
| **Cymell a Chefnogi Gweithredu**<br>4. **Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, drwy weithio gydag eraill, ddatblygu pecyn cymorth cyfannol ym mhob deiliadaeth er** | **Cam Gweithredu 4.1** – Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud gwaith manwl ar fyrder i fodelu'r costau sy'n gysylltiedig â'r targedau a nodwyd yn Argymhelliad 2. Bydd hyn yn nodi camau gweithredu cynnar i'w blaenoriaethu yn ôl deiliadaeth, archdeip a daearyddiaeth ac, yn benodol, i wirio'r targedau 10 mlynedd. | Yn mynd rhagddo**.** Mae adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021 wedi darparu rhagor o syniadau defnyddiol yn y maes hwn. Mae gwaith modelu ariannol wedi'i wneud ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol i ddechrau datblygu cynnig ariannol ar gyfer y sector. Ymhlith y ffactorau a gafodd eu modelu y mae oedran, archdeip a lleoliad y stoc dai. Pan fydd y fersiwn derfynol o'r SATC wedi'i chwblhau, gellir troi'r modelau ariannol yn gynhyrchion cyllido go iawn. |

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
|---|---|---|
| **mwyn ysgogi a hwyluso gweithredu** | **Cam Gweithredu 4.2** – Parhau â STAC ar gyfer landlordiaid cymdeithasol a'r cyllid gwerth £108m y flwyddyn sy'n gysylltiedig â hyn, ar y sail eu bod yn cyflawni yn erbyn y targedau ymestynnol a nodwyd yn Argymhelliad 2. | Wedi’i gyflawni. Mae'r cynigion ar gyfer y safon SATC newydd yn cynnwys Rhan 3, sy'n nodi'r safonau datgarboneiddio y mae disgwyl i landlordiaid cymdeithasol eu bodloni yn gyfnewid am £108m mewn taliadau gwaddoli a chyllid y Lwfans Atgyweiriadau Mawr. |
| | **Cam Gweithredu 4.3** – Darparu arweiniad a chymorth i landlordiaid cymdeithasol i'w galluogi i gyflawni'r targedau heriol newydd yn Argymhelliad 2. | Yn mynd rhagddo. Mae’r safon SATC ddiwygiedig yn glir ac yn gryno. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y safon yn cael ei dehongli mewn modd cyson a bod y disgwyliadau'n gyson, mae canllawiau wedi’u llunio sy’n cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau i gefnogi landlordiaid a thenantiaid. |
| | **Cam Gweithredu 4.4** – Dod o hyd i ddatrysiad ariannol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig traddodiadol nad ydynt yn derbyn adnoddau SATC ar hyn o bryd i'w galluogi i fodloni'r targedau ymestynnol a ddisgrifiwyd yn Argymhelliad 2. | Yn mynd rhagddo. Mae'n debygol y bydd Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 3, a fydd ar waith rhwng 2022 a 2023, yn profi model ariannu sy'n cynnwys cymorth ariannol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig traddodiadol. Bydd profi'r dull gweithredu hwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn llywio'r ffordd y caiff datgarboneiddio ei gyllido yn y dyfodol. |
| | **Cam Gweithredu 4.5** – Sicrhau bod rhaglenni cyllid presennol y sector cyhoeddus sy'n cefnogi gwelliannau i gartrefi yn cael eu diwygio er mwyn cyd-fynd â'r canlyniadau a'r targedau a argymhellir yn yr adroddiad hwn. | Yn mynd rhagddo. Rhaid i dai a ariennir gan Lywodraeth Cymru fodloni safonau WDQR2021 neu SATC. Mae'r Is-adran Tir bellach wedi mabwysiadau safonau tai ar gyfer safleoedd Llywodraeth Cymru sy'n cael eu datblygu a'u gwaredu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod cynlluniau Llywodraeth Cymru a ariannir yn gyhoeddus yn gyson. Mae'r tîm technegol yn mynd i gyfarfodydd grwpiau llywio safleoedd er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. At hyn, mae'r Is-adran Adfywio yn ceisio cysoni’r safonau datgarboneiddio ar gyfer gwaith ailddatblygu canol trefi mewn modd tebyg. Mae'r safonau'n newydd ac yn datblygu o hyd, a bydd gan y gwaith o gysoni safonau rôl allweddol i'w chwarae ym mholisi tai. |
| | **Cam Gweithredu 4.6** – Dylid rhyddhau adnoddau ar gyfer ariannu datblygiad Cofnodlyfrau Cartref, fel y nodwyd yn Argymhelliad 3, ac i ariannu mesurau ar gyfer perchenogion tai. | Yn mynd rhagddo. Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn talu am asesiadau tŷ cyfan er mwyn cynhyrchu cofnodlyfr/pasbort yn nodi'r gwaith sydd ei angen ar yr eiddo. Mae'r syniad o gadw'r asesiad a'r cofnod o waith dilynol yn rhan o'r cam nesaf. Ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, bydd eu systemau rheoli asedau'n cadw'r wybodaeth hon er mwyn helpu i gynllunio atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Bydd deiliadaethau eraill yn fwy o her. |

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| | **Cam Gweithredu 4.7** – Dylai'r broses i berchenogion tai wneud cais am gymorth ariannol fod mor syml â phosibl, a bod yn gysylltiedig â'r angen am Gofnodlyfr Cartref, fel y disgrifiwyd yn Argymhelliad 3. | Heb ei weithredu eto. Mae'r gwaith cychwynnol o wneud cynigion i berchnogion cartrefi bellach yn mynd rhagddo, ond nid yw'n ddigon datblygedig i gyflawni'r argymhelliad hwn eto. |
| | **Cam Gweithredu 4.8** – Creu dulliau cymorth ariannol ar fyrder ar gyfer perchen-feddianwyr a landlordiaid preifat sy'n dymuno gwella effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth ariannol. | Heb ei weithredu eto. Mae gwaith paratoi wedi dechrau gyda thrafodaethau’n cychwyn gyda'r Banc Datblygu ac mae'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio wedi cael y dasg o feddwl am atebion ar gyfer perchnogion, y gellid eu rhoi ar waith ar gyfer landlordiaid preifat. |
| | **Cam Gweithredu 4.9** – Mae angen nodi datrysiadau anariannol tymor hwy a/neu fwy arloesol yn gyflym, eu treialu, cynnal prawf maes ar eu cyfer ac, os yw hynny'n llwyddiannus, eu rhoi ar waith. | Wedi’i gyflawni. Nod sefydlu'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio oedd profi a dysgu sut i ddatgarboneiddio cartrefi. Caiff effaith y treialon maes a'r cynlluniau peilot eu rhannu'n ehangach cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ym maes tai sy'n gweithio â gwahanol ddeiliadaethau ddeall sut i ddatgarboneiddio cartrefi. |
| | | |
| <u>**Data a Gwybodaeth**</u><br>5. **Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data am statws a chyflwr y stoc dai er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol a mesur cynnydd tuag at y targedau** | **Cam Gweithredu 5.1** – Dylai'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys data am ddefnydd o ynni cyn ac ar ôl y gweithgareddau ôl-osod, gael ei defnyddio i lywio'r ffordd y caiff cynnydd ei fesur, datblygiad polisïau a buddsoddiad. Bydd angen i'r broses casglu data lywio'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel. | Yn mynd rhagddo. Mae protocolau data wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod modd rhannu’r data a gesglir gan landlordiaid ar y defnydd o ynni â Llywodraeth Cymru er mwyn monitro cynnydd cynlluniau a ariennir gan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Mae data sylfaenol yn cael eu casglu ar y defnydd o ynni yn ystod y gaeaf, ac mae cael System Ynni Ddeallus sy'n casglu data o'r fath yn amod o grant y rhaglen. Bydd y data yn llywio nifer o agweddau ar waith Llywodraeth Cymru i gyrraedd Cymru Sero Net. |
| | | |

| Argymhelliad | Camau Ategol | Diweddariad |
|---|---|---|
| <u>**Profi a Gweithredu**</u><br>**6. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro a phrofi datrysiadau newydd i ddatgarboneiddio cartrefi** | **Cam Gweithredu 6.1** – Sefydlu cronfa gwerth o leiaf £100 miliwn i barhau tan 2030 er mwyn talu i ddatblygu a phrofi datrysiadau arloesol ar raddfa fach a mawr, heb fod yn gyfyngedig i faterion technegol, a fydd yn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru. Mae Rhaglen Tai Arloesol lwyddiannus Llywodraeth Cymru yn darparu model ar gyfer hyn. | Wedi'i gyflawni. Sefydlwyd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio mewn ymateb i'r argymhelliad hwn. Mae Gweinidogion eisoes wedi ymrwymo i ddarparu cyllid gwerth £70m i landlordiaid cymdeithasol er mwyn iddynt ddysgu sut i ddatgarboneiddio cartrefi yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae £150m ychwanegol ar gael bellach i barhau â'r rhaglen yn ystod tymor y llywodraeth hon, sy'n golygu bod cyfanswm o tua £220m wedi'i fuddsoddi mewn datgarboneiddio preswyl ers 2020. |
| | | |
| <u>**Pwysigrwydd Cymunedau**</u><br>**7. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid wneud y defnydd mwyaf o gymunedau, rhwydweithiau, cymdeithasau a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi** | **Cam Gweithredu 7.1** – Annog a chefnogi mentrau i gynnwys y gymuned yn y broses o ddatblygu a chyflwyno rhaglen newydd. | Yn mynd rhagddo. Mae'r safon SATC newydd yn cynnwys safbwyntiau dros 1,000 o denantiaid yng Nghymru, ac mae nifer o sesiynau wedi'u cynnal mewn partneriaeth â TPAS Cymru i sicrhau bod y safon yn adlewyrchu barn tenantiaid. Gellir defnyddio elfennau o'r model ymgysylltu hwn eto wrth ddatblygu rhaglen ddatgarboneiddio i breswylwyr mewn deiliadaethau eraill. Rydym yn glir – tenantiaid sydd wrth wraidd safon SATC.<br><br>Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hefyd yn cynnwys cryn dipyn o weithgarwch i gynnwys y gymuned, a ysgogir gan amlaf drwy systemau ymgysylltu landlordiaid. Os nad yw preswylwyr yn barod i dderbyn mesurau i ddatgarboneiddio eu cartrefi, mae'n peri risgiau i raglenni, e.e. risg na fydd cartrefi ar gael i'r rhaglen, risg na wneir gwaith datgarboneiddio. I ategu gwaith landlordiaid, mae'r Rhaglen wedi cyllido grwpiau ffocws a chreu fideos a phecynnau canllaw, yn ogystal â deunyddiau safonol i landlordiaid eu defnyddio.<br><br>Gellir gweld enghreifftiau o waith cyfathrebu'r rhaglen ar ei sianel YouTube - cliciwch ar y ddolen isod.<br><br><u>(28) Optimised Retrofit - YouTube</u><br><br>Mae safonau diwygiedig SATC a WDQR2021 wedi galw am waith cyd-greu sylweddol ag amrywiaeth o randdeiliaid. Er enghraifft, mae grŵp gorchwyl a gorffen SATC yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai Pawb (sef sefydliad trydydd sector sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb), TPAS Cymru (sef y corff cynrychiadol ar gyfer tenantiaid) a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ymhlith eraill. |